Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Cynllun Monitro a Gwerthuso

(Drafft)








# Cynllun Monitro a Gwerthuso

## Cynnwys

Cynnwys ... 1
1. CYFLWYNIAD A CHRYNODEB ... 2
1.1 Cyd-destun a phwrpas y Cynllun Monitro a Gwerthuso Hwn ... 2
1.2 Canllawiau Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru ar fonitro a gwerthuso ... 3
1.3 Canllawiau Llywodraeth Cymru i Gydbwyllgorau Corfforedig ar fonitro a gwerthuso ... 4
2. CYD-FYND Â NODAU CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL ... 5
2.1 Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ... 5
2.2 Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ... 6
2.3 Amcanion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ... 7
2.4 Nodau Fframwaith Asesiad Llesiant Integredig Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ... 8
3. BETH FYDD YN CAEL EI FONITRO A'I WERTHUSO A SUT ... 10
3.1 Themâu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ... 10
3.2 Mesurau a dangosyddion polisi trafnidiaeth ... 10
3.3 Mesurau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ... 11
3.4 Dangosyddion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ... 17
3.5 Cyflawni'r Cynllun ... 20
ATODIADAU ... 21
A.1 Teclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru ... 22
A.2 Rhestr hir polisïau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ... 23

# 1. CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

## 1.1 Cyd-destun a phwrpas y Cynllun Monitro a Gwerthuso Hwn

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer creu Cydbwyllgorau Corfforedig (CBC) a ffurfiwyd i hyrwyddo cydweithredu rhanbarthol trwy fframwaith cyson a reolir yn ddemocrataidd. Mae'n ofynnol i CBC gydymffurfio â holl ddyletswyddau cyrff cyhoeddus ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol dros baratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP)[1] y mae'n rhaid iddynt nodi polisïau trafnidiaeth i weithredu Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021[2] a darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru'n nodi'r weledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon yng Nghymru. Y mecanweithiau cyflawni i wireddu'r uchelgeisiau hyn yw Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru 2022-2027 ac ar lefel ranbarthol, y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Paratowyd y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn i gefnogi gweithrediad llwyddiannus Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025-2030, ynghyd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) a'r Arfarniad Lles Integredig (IWBA), y dylid eu darllen ar y cyd â'r ddogfen hon.

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei fabwysiadu os bydd Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (a'i RTDP ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol, yn ogystal â'r IWBA) yn ystod haf 2025. Dylai'r gwaith gwerthuso a monitro ddechrau ar y dyddiad y mabwysiadir y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.


Uchelgais Gogledd Cymru fydd berchen y cynllun fel Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd ac UGC fydd hefyd yn atebol am ei gyflawni. Y CBC a'i awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am gyflawni'r hyn sydd yn y cynllun.

Mae CBC y Gogledd yn cynnwys cynrychiolwyr o chwe ardal awdurdod lleol Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, a Gwynedd fel y dengys yn Ffigwr 1, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer materion cynllunio.

---

[1] Mae'r CBC hefyd yn gyfrifol am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol

[2] Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 – Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021




Ffigwr 1- Awdurdodau Lleol a gynhwysir yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (gyda Pharc Cenedlaethol Eryri mewn gwyrdd)

## 1.2 Canllawiau Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru ar fonitro a gwerthuso

Mae’r Canllawiau Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru[3] diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024, yn darparu canllawiau ar bum cam cynllunio a gwerthuso trafnidiaeth, pum dimensiwn achos busnes ar gyfer ymyraethau trafnidiaeth, a rôl yr arfarniad lles integredig (IWBA). Mae’n berthnasol i raglenni a pholisïau trafnidiaeth strategol, yn ogystal â phrosiectau trafnidiaeth unigol yng Nghymru. Mae'n defnyddio dull cam-wrth-gam i gynllunio prosiectau ac ystyrir monitro a gwerthuso yng Ngham 5, sydd hefyd yn berthnasol i ddatblygu polisïau.

Waeth beth yw maint, cwmpas a chymhlethdod prosiect - WelTag byr, WelTAG safonol neu WelTAG manwl - mae'r WelTAG yn gofyn i bob prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru fonitro'n rheolaidd a darparu adroddiadau cynnydd blynyddol. Mae'n datgan:

*"Bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'r rhaglen neu brosiect wedi'i gyflawni. Mae adroddiad cynnydd blynyddol yn fersiwn llai manwl o'r adroddiad gwerthuso llawn. Mae'n darparu manylion y prosiect, unrhyw newidiadau a sut mae'r cynllun ymgysylltu wedi'i roi ar waith. Mae'n egluro pa wahaniaeth mae'r prosiect wedi'i wneud i bobl, beth weithiodd yn dda a beth oedd ddim cystal a'r gwersi a ddysgwyd."*

Mae'n cydnabod y gall fod yna risgiau nad oeddynt wedi'u rhagweld a bod y modd o gyflawni'r rhaglen neu brosiect yn gallu newid. Bydd monitro a diweddaru'n rheolaidd yn helpu i nodi unrhyw broblemau yn ystod y camau cynnar. Efallai y bydd angen i raglenni a phrosiectau mwy cymhleth gyflwyno gwerthusiad cynhwysfawr ar ôl ei weithredu i egluro sut y maent yn cyflawni gwerth am arian.

---

[3] Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), 2024. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/welsh-transport-appraisal-guidance-weltag

## 1.3 Canllawiau Llywodraeth Cymru i Gydbwyllgorau Corfforedig ar fonitro a gwerthuso

Mae Canllawiau Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer CBC[4] yn amlinellu:

1. Rhaid i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys Cynllun Monitro a Gwerthuso sy'n dangos sut y bydd cynnydd yn rhanbarthol o ran cyflawni blaenoriaethau ac uchelgeisiau cenedlaethol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) yn cael ei fonitro, ei fesur a'i werthuso. Rhaid i hyn gynnwys cyfraniad y rhanbarth i dargedau datgarboneiddio a newid moddol cenedlaethol.
2. Dylai'r Cynllun Monitro a Gwerthuso gynnwys cyfres o fesurau gyda gwybodaeth waelodlin ar gyfer pob un. Gall y mesurau gynnwys deilliannau ansoddol a mesurau meintiol.
3. Dylai'r mesurau fod yn seiliedig ar y fframwaith o fesurau a ddefnyddiwyd yn yr Arfarniad Lles Integredig (IWBA) a dylid eu diweddaru os oes angen, gan ddefnyddio Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer anghenion rhanbarthol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi data gwaelodlin ar gyfer Fframwaith Monitro WTS ac yn adolygu a diweddaru hyn yn barhaus.
4. Rhaid i CBC gyflwyno adroddiadau perfformio blynyddol ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru pob blwyddyn.
5. Dylid paratoi gwerthusiad cynhwysfawr ar ôl tair blynedd i asesu p'un a yw'r RTP yn cyflawni ei ddeilliannau, yn darparu gwerth am arian a ph'un a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Dylai hyn ddilyn canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ac arferion gorau ar werthuso.
6. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad cynhwysfawr hwn yn bwydo i mewn i'r RTP dilynol ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig, a'r NTDP dilynol.

Mae Atodiad 4 Canllawiau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (Fframwaith y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol) hefyd yn egluro y dylai Cynllun Monitro a gwerthuso ddisgrifio sut y bydd pob ymyrraeth, a'i effeithiau, yn cael ei fonitro ac y dylai hyn ddilyn canllawiau WelTAG fel sy'n briodol.

[4] Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol: canllawiau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, 2023. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/regional-transport-plans-guidance-corporate-joint-committees

# 2. CYD-FYND Â NODAU CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL

Mae Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) yn nodi gweledigaeth Cymru i ddarparu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Y weledigaeth ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP) yw y bydd gan y Gogledd rwydwaith trafnidiaeth integredig diogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant a llesiant.

Cefnogir y gweledigaethau hyn gan amcanion sy'n darparu arweiniad i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn ac mae angen iddo gyd-fynd â'r amcanion trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau ei fod yn cyfrannu at eu diwallu.

## 2.1 Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Cyhoeddwyd Llwybr Newydd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth yng Nghymru, ei blaenoriaethau am y bum mlynedd nesaf a'i huchelgais dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae Llwybr Newydd yn nodi'r tair blaenoriaeth a'r pedair uchelgais a ganlyn, sy'n tanategu ei gweledigaeth:

- Blaenoriaeth 1 - Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio;
- Blaenoriaeth 2 - Caniatáu pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws trwy wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon;
- Blaenoriaeth 3 - Annog pobl i newid i fathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth;
- Uchelgais 1 - Da i bobl a chymunedau;
- Uchelgais 2 - Da i'r amgylchedd;
- Uchelgais 3 - Da i'r economi a'r lleoedd yng Nghymru;
- Uchelgais 4 - Da i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

## 2.2 Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Dyluniwyd fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru[5] i helpu i dracio cynnydd wrth gyflawni'r blaenoriaethau ac uchelgeisiau cenedlaethol. Mae'r fframwaith monitro yn cynnwys chwe mesur trawsbynciol (Datganiad Llesiant 2021-2026[6]) sy'n ymestyn y tu hwnt i drafnidiaeth yn unig. Mae yna 27 o fesurau ategol hefyd (S1 i S27) sydd wedi'u dylunio  i gefnogi a darparu cyd-destun ychwanegol i'r mesurau allweddol. Ystyrir mai'r mesurau allweddol hyn yw rhan bwysicaf y fframwaith wrth gefnogi amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru o ran datgarboneiddio a newid moddol.

Tabl 2-1 mesurau allweddol ac ategol fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru2 Mae tabl 2-1 yn rhestru'r mesurau allweddol a'r rhai ategol yn y fframwaith monitro.

Tabl 2-1 mesurau allweddol ac ategol fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru2

| Cyf. | Mesurau Allweddol | Cyf. | Mesurau Ategol |
|---|---|---|---|
| M1 | % y teithiau wrth gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus | S1 | Cyfartaledd yr amser teithio i wasanaethau addysg, iechyd a hamdden |
| M2 | % y cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau | S2 | % y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at wasanaethau yn eu hardal leol |
| M3 | Cyfanswm y cilomedrau y mae cerbydau wedi'u teithio | S3 | % y bobl sydd o fewn pellter cerdded i ddulliau cludiant cynaliadwy |
| M4 | Pellter cyfartalog a deithir fesul person | S4 | % y bobl sy'n cerdded neu feicio o leiaf unwaith yr wythnos fel modd o deithio |
| M5 | % y gweithlu sy'n gweithio o bell ar sail reolaidd | S5 | % y teithiau i orsaf drenau wrth gerdded, beicio neu ar y bws |
| M6 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector cludiant | S6 | % y teithiau i atyniadau ymwelwyr ar ddulliau teithio cynaliadwy |
| | | S7 | % y rhwydwaith rheilffyrdd sydd wedi'i drydanu |
| | | S8 | % Cludo llwythi ar y tir ar y rheilffordd |
| | | S9 | % y gwasanaethau bws a rheilffordd sy'n brydlon |
| | | S10 | Nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael i'r cyhoedd |
| | | S11 | % y bobl sy'n fodlon â'u siwrne |
| | | S12 | % y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at gludiant cyhoeddus yn annibynnol |
| | | S13 | % y gorsafoedd rheilffordd sydd heb stepiau |
| | | S14 | % y bysiau a threnau sydd â gwybodaeth sain weledol |

[5] Adroddiad Technegol Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 2022. Ar gael ar-lein yn: https://tfw.wales/sites/default/files/2022-06/Wales%20Transport%20Strategy%20Monitoring%20Framework%20Technical%20Report%2l02022.pdf

[6] Llywodraeth Cymru: Datganiad Llesiant 2021-2026. Ar gael ar-lein yn https://www.gov.wales/programme-for-government-2021-to-2026-well-being-statement-html

| Cyf. | Mesurau Allweddol | Cyf. | Mesurau Ategol |
|---|---|---|---|
| | | S15 | % y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau iaith Gymraeg yn y sector cludiant |
| | | S16 | % yr oedi cyfartalog i bob cilomedr a deithir |
| | | S17 | % y gost gyfartalog fesul cilomedr a deithir gan gludiant cyhoeddus |
| | | S18 | % y bobl sy'n teimlo nad ydynt yn medru fforddio teithio ar gludiant cyhoeddus |
| | | S19 | Pobl sydd wedi'u lladd neu'u hanafu ar y rhwydwaith drafnidiaeth |
| | | S20 | % y bobl sy'n teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt wrth deithio |
| | | S21 | % y seilwaith drafnidiaeth sydd mewn cyflwr da |
| | | S22 | % y seilwaith drafnidiaeth sydd mewn peryg o gael llifogydd |
| | | S23 | Lefel y llygryddion aer o'r sector trafnidiaeth |
| | | S24 | % y bobl y mae sŵn a achosir gan drafnidiaeth y tu allan i'w cartref yn eu poenydio |
| | | S24 | Nifer yr hectarau o gynefin ar yr ystâd drafnidiaeth sy'n cael ei chynnal neu ei gwella er budd bioamrywiaeth |
| | | S26 | % y gwastraff a gynhyrchir gan y sector trafnidiaeth sydd wedi'i ailddefnyddio neu ei ailgylchu |
| | | S27 | % yr asedau hanesyddol dynodedig ar yr ystâd drafnidiaeth sydd mewn cyflwr sefydlog neu sy'n gwella |

Mae'r fframwaith monitro'n cyflwyno data sy'n darparu gwaelodlin ar gyfer y mesurau yn y fframwaith monitro, ac mae Trafnidiaeth Cymru yn diweddaru'r data yn flynyddol o 2023.

## 2.3 Amcanion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu pedwar amcan SMART allweddol (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amserol) ar gyfer monitro a gwerthuso llwyddiant y Cynllun. Mae pedwar amcan SMART yn sefydlu targedau ac yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng blaenoriaethau anodau llesiant yr RTP a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru fel sy'n ofynnol gan Ganllawiau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol: Byddwn yn galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030 trwy gynllunio defnydd tir yn well a gwella cysylltedd digidol, a ddylai leihau'r angen cyffredinol i deithio a galluogi teithiau byrrach sy'n fwy addas ar gyfer dulliau cynaliadwy.

2. Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth: Byddwn yn datblygu isadeiledd a gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl sut maent yn teithio ar gyfer pob taith ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy wella mynediad i aneddleoedd allweddol, cyflogaeth, safleoedd addysgol ac atyniadau twristaidd. Dylid gwella hygyrchedd pob atyniad taith allweddol, gan gefnogi'r targed rhannu modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040.
3. Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau: Byddwn yn datblygu isadeiledd ategol a chefnogi cymhellion i alluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035.
4. Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy: Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwydn, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac effeithlon sy'n sicrhau twf economaidd cynaliadwy drwy wella hygyrchedd i feysydd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio. Bydd o leiaf 50% o aelwydydd yng Ngogledd Cymru yn gallu teithio'n bellach o fewn un awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol erbyn 2030..


## 2.4 Nodau Fframwaith Asesiad Llesiant Integredig Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae'r IWBA yn dangos sut mae llesiant wedi cael ei ystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys y cyfraniad at lesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, a sut y paratowyd ar gyfer defnyddio'r pum ffordd o weithio a hyrwyddir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn cynnwys asesiadau effaith, gan ystyried, er enghraifft, sut y mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ystyried a chyfrannu at ddeilliannau ansawdd iechyd ac amgylcheddol ehangach.
Mae 12 amcan IWBA wedi'u nodi yn unol â rheoliadau SEA ar gyfer asesu effeithiau posib y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac i osod datblygu cynaliadwy yng nghanol y broses gwneud penderfyniadau.
Mae Tabl 2-2 yn rhestru 12 amcan IWBA.

| Cyf. | Amcanion Fframwaith IWBA |
|---|---|
| 1 | Cefnogi darpariad tai a gwasanaethau lleol i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol |
| 2 | Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlynu cymunedol |
| 3 | Gwella iechyd a lles y boblogaeth leol, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol |
| 4 | Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig. |
| 5 | Gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd, dynodiadau a mwynderau gweledol yn yr ardal leol |
| 6 | Gwarchod a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg |
| 7 | Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. |
| 8 | Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys sero) a gwella gwytnwch y seilwaith drafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. |
| 9 | Gwarchod a gwella ansawdd aer lleol |
| 10 | Lleihau aflonyddwch o sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a dirgryniad i gymunedau lleol |
| 11 | Ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai |
| 12 | Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a chludo nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth |

Tabl 2-2 Amcanion IWBA

Mae Ffigwr 2 Y Rhyng-berthynas rhwng amcanion (SMART) ac amcanion IWBA, Gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gogledd Cymru, a sut y maent yn cyd-fynd â Blaenoriaethau ac Uchelgeisiau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru.




Ffigwr 2 Y Rhyng-berthynas rhwng amcanion (SMART) ac amcanion IWBA, Gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gogledd Cymru, a sut y maent yn cyd-fynd â Blaenoriaethau ac Uchelgeisiau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru.

Gan ystyried WelTAG a chanllawiau Llywodraeth Cymru i CBC, mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn yn cynnwys cyfres o fesurau, gyda gwybodaeth waelodlin, yn seiliedig ar y fframwaith o fesurau a ddefnyddiwyd yn yr IWBA ac yn ystyried ei amcanion, gan dynnu ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'i fesurau.

Mae'r rhannau eraill o'r Cynllun hwn yn canolbwyntio ar beth fydd yn cael ei fonitro a'i werthuso, a sut.

# 3. BETH FYDD YN CAEL EI FONITRO A'I WERTHUSO A SUT

Fel yr amlinellir yn adran 2, mae angen i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn gyd-fynd ag amcanion trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau ei fod yn cyfrannu at eu diwallu. Felly, bydd y gwaith monitro a gwerthuso yn canolbwyntio ar gyd-fynd ag amcanion SMART ac IWBA y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ogystal â blaenoriaethau ac uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso, trefnir y mesurau a'r dangosyddion yn ôl themâu polisi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i bolisïau o fewn y themâu hynny, er mwyn medru tracio cynnydd yn haws o ran yr amcan ehangach o ddatgarboneiddio a thargedau newid moddol.

## 3.1 Themâu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae gweledigaeth ac amcanion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, fel y'u disgrifir yn adran 1.4 y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn, yn cyd-fynd yn agos â pholisïau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, yn cynnwys blaenoriaethau ac uchelgeisiau llesiant Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Er mwyn helpu i fframio ein polisïau a'n hymyraethau fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn, rydym wedi nodi cyfres o themâu polisi yn seiliedig ar naw cynllun bach Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer pob dull teithio. Mae'r rhain yn cynrychioli meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt ar gyfer polisïau trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru. Mae polisïau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, wedi'u cefnogi gan raglenni a phrosiectau, yn gosod y fframwaith i'r cynlluniau gael eu cyflawni gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr hyn a gaiff ei gyflawni trwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r themâu polisi yn cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Cynllunio defnydd tir | Bws[7] | Porthladdoedd a chludo llwythi |
| Cysylltedd Digidol | Trafnidiaeth coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol | Ffyrdd, strydoedd a pharcio |
| Cerdded, olwyno a beicio | Integreiddio rhwng dulliau | Uchelgeisiau'r rheilffyrdd |
| Mynediad ar y ddaear i awyrennau | Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio | Uchelgeisiau ffyrdd strategol |

Nid yw isadeiledd y rhwydwaith rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru wedi'i ddatganoli, sy'n golygu mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw, drwy Network Rail. Mae lefelau gwasanaeth yn cael eu pennu i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, a'r Adran Drafnidiaeth, gan weithio gyda'r

[7] *Noder: Mae'r gwasanaethau bws, coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymudo yn cael eu grwpio dan un thema polisi yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn oherwydd eu natur trawsbynciol. Mae'r dosbarthiad hwn yn seiliedig ar y syniad fod y gwasanaethau hyn yn rhannu mesurau a dangosyddion tebyg, sy'n hwyluso gwerthusiad cydlynol a chynhwysfawr.*

Cwmnïau Gweithredu Trenau (Trafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast ar hyn o bryd). Mae Cwmnïau Gweithredu Cludo Llwythi yn gwasanaethu anghenion cwsmeriaid, sy'n golygu bod gwasanaethau cludo llwythi yn cael eu harwain yn fasnachol. Darperir y trac ar gyfer cludo teithwyr a llwythi ar y rheilffyrdd gan Network Rail, gyda rheoliadau gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Golyga hyn nad oes gan y Cydbwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros wasanaethau neu isadeiledd rheilffyrdd, felly nid oes polisïau penodol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, na chynlluniau sy'n ymwneud â rheilffyrdd yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn sgil hynny, nid ydynt wedi'u cynnwys yn sgôp y Cynllun Monitro a Gwerthuso.

## 3.2 Mesurau a dangosyddion polisi trafnidiaeth

Mae mesurau polisi trafnidiaeth yn strategaethau a chamau gweithredu i reoli, rheoleiddio a gwella systemau trafnidiaeth. Gall mesurau polisi anelu i wella symudedd, lleihau tagfeydd, gwella diogelwch, lleihau effaith amgylcheddol a hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Mae dangosyddion polisi trafnidiaeth yn fetrigau neu'n newidynnau ar gyfer asesu, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y polisïau trafnidiaeth a'u heffeithiau. Yn wahanol i fesurau polisi, sy'n gamau gweithredu neu strategaethau penodol i gyflawni nodau polisi, mae dangosyddion yn offerynnau i fesur canlyniadau, cynnydd neu berfformiad y camau gweithredu hynny. Mae dangosyddion polisi trafnidiaeth yn darparu adborth angenrheidiol sy'n caniatáu i lunwyr polisi ddeall a yw eu mesurau'n cyflawni'r effeithiau a fwriedir, neu a oes angen gwneud addasiadau. Er enghraifft, efallai y byddai mesur polisi trafnidiaeth yn ceisio lleihau allyriadau ceir drwy hyrwyddo cludiant cyhoeddus, tra byddai dangosydd yn olrhain y gwir allyriadau neu'r nifer sy'n defnyddio trafnidiaeth i gadarnhau bod y polisi'n gweithio yn unol â'r bwriad.

I grynhoi, y mesurau yw'r strategaethau neu'r gweithrediadau sydd eu hangen i ddylanwadu ar ddeilliannau trafnidiaeth, a'r dangosyddion sy'n olrhain ac yn adrodd ar effeithiau neu gynnydd y mesurau hynny. Mae'r naill a'r llall yn angenrheidiol i greu fframwaith monitro a gwerthuso sy'n ymatebol ac yn atebol.

Mae adran nesaf y Cynllun hwn yn amlinellu'r mesurau a'r dangosyddion polisi trafnidiaeth a argymhellir ar gyfer monitro a gwerthuso Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sut y maent wedi'u trefnu a pha mor berthnasol ydynt i themâu polisi trafnidiaeth.

## 3.3 Mesurau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae'r angen i ystyried ystod mor eang o amcanion wedi'i gydbwyso yn erbyn yr angen i fod yn realistig o ran y gallu i gyflawni gwaith monitro a gwerthuso yng nghyd-destun y pwysau sydd ar adnoddau awdurdodau lleol, a'r angen i sicrhau bod ymdrechion yn canolbwyntio ar sicrhau llwyddiant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac unrhyw fersiynau ohono yn y dyfodol. I flaenoriaethu'r mesurau ar adnoddau hyn, maent wedi'u dosbarthu'n fras fel a ganlyn, sy'n adlewyrchu strwythur Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru:

Mesurau Allweddol: Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol i brif themâu a nodau Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn Fframwaith Monitro WTS, yn cynnwys datgarboneiddio a newid moddol cenedlaethol. Gan fod gan Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ei uchelgeisiau a'i amcanion rhanbarthol ei hun, mae'r mesurau allweddol wedi'u dethol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ddwy gyfres o nodau (hefyd yn cynnwys Fframwaith IWBA). Felly, bydd y mesurau allweddol hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni uchelgeisiau a blaenoriaethau WTS, yn ogystal ag amcanion SMART ac IWBA y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Maent wedi'u rhestru yn Ffigwr 3 ac yn cynnwys y 15 mesur a ganlyn:

1. LUP-3: Agosrwydd i gludiant cyhoeddus
2. DC-5: Gweithio o bell
3. WC-5: Pobl sy'n teithio'n llesol pob wythnos
4. BC-1: Prydlondeb bysus a choetsis
5. BC-6: Cyfansoddiad y Fflyd (cyfran y bws yn ôl math yr injan)
6. IM-2: Teithiau i orsaf drenau wrth gerdded, beicio neu ar y bws
7. EBC-1: Cyfran y modd ar gyfer cludiant cyhoeddus
8. EBC-2: Teithiau i atyniadau ymwelwyr ar gludiant cyhoeddus
9. EBC-4: Y galw a'r cyflenwad ar gyfer gwefru cerbydau trydan
10. PF-2: Cyfansoddiad y Fflyd (cyfran y cerbydau cludo llwythi yn ôl math yr injan)
11. RSP-1: Cyfran cyfanswm km yn ôl math y cerbyd
12. RSP-2: Pellter a deithir fesul person
13. RSP-5: Damweiniau ffordd
14. RSP-6: Cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau
15. AD-1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector cludiant

- Mesurau Ategol: Mae'r mesurau ategol wedi'u dylunio i gefnogi a darparu cyd-destun ychwanegol i'r mesurau allweddol. Maent hefyd wedi'u rhestru yn Ffigur 3.

Mae Ffigwr 3 yn dangos cydberthynas a pherthnasedd pob mesur i'r amcanion ac i bolisïau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (wedi'u trefnu yn ôl themâu polisi). Mae'r ffigwr yn dangos fod CBC Gogledd Cymru angen dull integredig wrth fonitro er mwyn taclo'r holl amcanion; ni all un mesur sengl ymdrin â phob un. Ymhellach, mae gan rai mesurau effaith gref ar amcanion penodol ond effaith eilaidd neu rannol ar eraill.

Ffigwr 3 Sut mae mesurau'r RTP yn cyd-fynd ag amcanion a pholisïau rhanbarthol a chenedlaethol[8]

**Thema Polisi Gogledd Cymru: Defnydd Tir a Chynllunio**

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| Mentrau datblygiad sy'n seiliedig ar Systemau Trafnidiaeth (TOD) | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | LU1 | 1, 2, 3, 5, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Dwysedd datblygiadau defnydd cymysg | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | LU2, LU3, LU4, LU5 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Agosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus | Allweddol | **Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** | AT1, AT7, AT9, LU2, LU3, LU5 | 1,2, 3, 8, 9 , 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i fannau gwyrdd | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | AT1, LU2, LU4, AT6 | 2, 3, 8 | | | | | | | | | | | |
| Amser teithio i wasanaethau addysg, iechyd a hamdden | Ategol | **Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** | PT5, PT6, CB8, LU5 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Bodlon gyda mynediad i'r gwasanaeth | Ategol | **Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** | AT1, LU2 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |

[8] Cyfeirier at Atodiad A.2 i gael rhestr hir o bolisïau Cynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru ac Adran 2.4 amcanion IWBA Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru0

## Thema Polisi Gogledd Cymru: Cysylltedd Digidol

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| Sylw Wi-fi mewn canolfannau trafnidiaeth | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | DC2, DC3, IN1 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Argaeledd gwybodaeth amser real | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | DC3 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Mabwysiadu gwasanaethau digidol | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | DC2, CB14 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Mynediad digidol mewn ardaloedd gwledig | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | DC1, DC2, DC3, CB14 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Gweithio o bell | Allweddol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | DC1 | 8, 12 | | | | | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf" | |
| Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol" | |
| Dim cyfraniad | |

## Thema Polisi Gogledd Cymru: Cerdded, Olwynio a Beicio

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| Rhwydwaith cerdded a beicio | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | AT2, AT5, LU4, LU2, CB1, CB4, CB8, CB10, CB12, CB13, CB20 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Argaeledd cyfleusterau parcio beiciau | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | AT1, AT12, AT13 | 1, 2, 3, 5, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Hygyrchedd gorsafoedd | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT1, AT3, AT4, AT11, IN3, CB13, CB14 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Damweiniau ffordd i ddefnyddwyr teithio llesol | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | AT1, AT4, LU4, LU2, CB1, CB12, CB13, CB14 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Cyfranogwyr teithio llesol wythnosol | Allweddol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT1, AT2, AT4, AT5, AT12, AT13, AT14, LU4, LU2, CB1, CB10, CB13 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Cynnydd mewn defnyddwyr teithio llesol | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | AT1, AT2, AT4, AT5, AT6, LU4, LU2, CB1, CB10, CB13 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |

## Thema Polisi Gogledd Cymru: Mynediad ar y Ddaear i'r Diwydiant Awyrennau

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economiadd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| Hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus i feysydd awyr | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | LU2, LU3, LU5, AV1, PT5, CB15, CB16, IN1, IN4 | 1, 2, 8, 9, 12 | | | | | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf" | |
| Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol" | |
| Dim cyfraniad | |

## Thema Polisi Gogledd Cymru: Bws, Choets a Thrafnidiaeth Gymunedol

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| **Perfformiad ar amser** | Allweddol | **Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** | PT1, PT4, PT6, CB1, CB2, CB8, CB10, CB13 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| **Mynegai amser taith bws o'i gymharu â cherbyd preifat** | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | PT1, PT5, PT6, CB1, CB2, CB6, CB8, CB10, CB13 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| **Cost fesul cilomedr (Trafnidiaeth gyhoeddus)** | Ategol | Wedi ei ddiwygio o'r Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | PT1, PT9, CB1, CB6, CB8, CB10, CB13, CB21, CB22, IN4 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| **Fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus** | Ategol | **Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** | LU2, LU3, LU4, PT1, PT9, CB2, CB5, CB6, CB7, CB8, CB14, IN4 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| **Cyfradd twf teithwyr** | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | PT1, PT4, PT5, PT8, PT9, PT10, CB1, CB2, CB5, CB6, CB8, CB10, CB17 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| **Cyfansoddiad fflyd (cyfran o fws yn ôl math o injan)** | Allweddol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | PT2, PT3, PT13, CB16 | 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| **Amser ymateb cyfartalog ar gyfer Trafnidiaeth Ymatebol i'r Galw** | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | PT12 | 1, 2, 3, 12 | | | | | | | | | | | |
| **Teithwyr misol ar gyfer Trafnidiaeth Ymatebol i'r Galw** | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | PT11, PT12, PT13, CB1, CB2, CB4, CB5, CB6, CB8, CB10, CB13, CB14, CB20 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| **Cyfansoddiad fflyd (cyfran o Drafnidiaeth Ymatebol i'r Galw yn ôl math o injan)** | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | RS10, RS11, PT13, CB16 | 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |

## Thema Polisi Gogledd Cymru: Integreiddio rhwng Dulliau

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| Datblygiad canolfannau aml-foddol | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | IN1, IN2, DC3 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Teithiau i orsaf drên wrth gerdded, beicio, neu fws | Allweddol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT1, AT2, AT4, AT5, AT12, AT13, LU4, LU2, IN3, IN4 | 1, 2, 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Boddhad cwsmeriaid gyda'u taith | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT3, AT4, AT11, AT12, AT13, PT5, PT6, PT7, PT8, PT9, PT10, IN2, IN3, IN4, CB1, CB5, CB7, CB8, CB10, CB12, CB13, CB14, CB18, DC3 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Boddhad cwsmeriaid â diogelwch wrth deithio | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT4, AT11, PT7, PT8, PT10, IN2, CB12, CB13, CB14 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf" | |
| Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol" | |
| Dim cyfraniad | |

## Thema Polisi Gogledd Cymru: Galluogi Newid i Ymddygiad Teithio

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| Cyfran modd trafnidiaeth cyhoeddus | Allweddol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT1, AT2, AT5, AT12, AT13, AT14, LU2, LU3, LU5, PT5, PT8, PT9, CB7, CB17, CB19, CB21 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Teithiau i atyniadau ymwelwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus | Allweddol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT13, PT5, PT8, PT9, PT15, CB15, CB17, CB18, CB19, CB20, CB21, CB22, CB23 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Teithio i'r gwaith | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | IN5, IN6, RS5, RS6, RS12, RS13 | 1, 8, 9, 12 | | | | | | | | | | | |
| Galw a chyflenwad gwefru Cerbydau Trydan | Allweddol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | LU2, RS7, RS8, RS9, RS10, RS11, CB16 | 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Bysiau gyda gwybodaeth glyweledol | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | PT8, PT10, CB14, DC3 | 1, 2, 3, 12 | | | | | | | | | | | |
| Boddhad cwsmeriaid gyda'u gallu i gael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn annibynnol | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | PT7, PT8, PT10, CB14 | 1, 2, 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |

## Thema Polisi Gogledd Cymru: Porthladdoedd a Chludiant Nwyddau

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| Cludiant nwyddau'r tir trwy reilffyrdd | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | PF9, CB3 | 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Cyfansoddiad fflyd (cyfran o gerbydau cludo nwyddau yn ôl math o injan) | Allweddol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | PF4, PF5 | 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf" | |
| Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol" | |
| Dim cyfraniad | |

## Thema Polisi Gogledd Cymru: Ffordd, Strydoedd a Pharcio

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| Cyfran o'r cyfanswm cilomedr yn ôl math o gerbyd | Allweddol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT1, AT2, PT1, PT4 | 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Pellter a deithiwyd fesul person | Allweddol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | LU2, AT2, AT12, AT13, AT14, PT4, PT5, CB1, CB5, CB7 | 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Sgôr cyflwr ffyrdd a chynnal a chadw | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | LU4, AT3, AT12, AT13, AT14, RS1 | 3, 5, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Lefel y tagfeydd ar y prif lwybrau | Ategol | Newydd/ yn seiliedig ar Arfarniad Llesiant Integredig | PT6, CB7, CB22, RS12 | 3, 5, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Damweiniau ffordd | Allweddol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT1, RS3, RS4 | 3, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu sero allyriadau | Allweddol | Wedi ei ddiwygio o'r Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | RS7, RS8, RS9, RS10, RS11, CB16 | 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf" | |
| Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol" | |
| Dim cyfraniad | |

## Mesurau Ychwanegol

| Mesurau Monitro CTRh | Categori mesur | Statws | Cyfraniad mesurau i bolisïau'r CTRh | Cyfraniad at Amcanion Arfarniad Llesiant Integredig | Cyfraniad at Amcanion 'SMART' CTRh | | | | Cyfraniad at Flaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | Cyfraniad at Uchelgeisiau Llesiant Strategaeth Trafnidiaeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol | Gwella hygyrchedd a dewis o ran trafnidiaeth | Galluogi datgarboneiddio drwy drawsnewid i fflyd sero allyriadau | Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy | Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio | Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy | Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | Yn dda i bobl a chymunedau | Yn dda i'r amgylchedd | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth | Allweddol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | RS7, RS8, RS9, RS10, RS11, CB13, CB14, CB16, PF8 | 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Lefel y llygryddion aer o'r sector trafnidiaeth | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | PT2, PT3, RS7, RS8, RS9, RS10, RS11, CB10 | 3, 8, 9, 10, 12 | | | | | | | | | | | |
| Pobl sy'n cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn a achosir gan drafnidiaeth | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | AT6 | 3, 10 | | | | | | | | | | | |
| Seilwaith trafnidiaeth sydd mewn perygl o lifogydd | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | PF2, PF3 | 2, 3, 7, 8, 12 | | | | | | | | | | | |
| Gwella a chynnal cynefinoedd | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | RS2, PT15, C21, C22, C23 | 4, 7 | | | | | | | | | | | |
| Asedau hanesyddol dynodedig ar ystad drafnidiaeth i'w gwella | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | CB17, CB18, CB19, CB20 | 5, 6 | | | | | | | | | | | |
| Gwastraff a gynhyrchir gan y sector trafnidiaeth sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | PT3, PF4 | 8, 9, 11 | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Cymraeg yn y sector trafnidiaeth | Ategol | Yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | PT8, PT10, CB14, DC2, DC3 | 2, 3, 6 | | | | | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfraniad tuag at amcanion "Yn gryf" | |
| Cyfraniad tuag at amcanion yn "Rhannol" | |
| Dim cyfraniad | |

## 3.4 Dangosyddion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

I ddatblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso mae angen defnyddio ystod eang o ddata a chyfrifiadau i gefnogi dangosyddion i olrhain cynnydd yn erbyn sefyllfa waelodlin, gyda diweddariadau rheolaidd i ddeall a yw'r amcanion yn cael eu diwallu dros amser.

I helpu i wneud hyn yn haws a sicrhau cysondeb yn y dull lle gall awdurdodau lleol fewnbynnu data lefel leol i hysbysu'r darlun yn rhanbarthol, mae teclyn olrhain ar Excel (Teclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru) wedi cael ei ddatblygu i amlinellu'r mesurau a'r dangosyddion, yn cynnwys data a dulliau cyfrifo. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A1.

Mae gweddill yr adran hon yn crynhoi'r fethodoleg a argymhellir ar gyfer casglu data ac adrodd ar ddata ac yn diffinio'r rôl a'r cyfrifoldebau ar gyfer monitro a gwerthuso i helpu i gyflawni'r targedau a'r deilliannau a amlinellir gan amcanion rhanbarthol a chenedlaethol.

### 3.4.1 Casglu data

Mae Llwybr Newydd yn cydnabod pwysigrwydd casglu data i ddeall y dewisiadau trafnidiaeth y mae pobl yn eu gwneud a'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt. I gael man cychwyn cyson sydd wedi'i safoni ar gyfer olrhain cynnydd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru tuag at amcanion rhanbarthol a chenedlaethol, dylid casglu setiau data gan ddilyn methodoleg gyson pan fo hynny'n bosib, fydd hefyd yn galluogi meincnodi a chymharu cynhwysfawr rhwng awdurdodau lleol a Gogledd Cymru fel rhanbarth yn erbyn y waelodlin genedlaethol. Cesglir peth data ar lefel leol, lefel Cymru a Lefel y DU, ac ystyrir hyn yn Nheclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru yn Atodiad A1.

Pan nad yw data ond ar gael ar lefel genedlaethol, mae'n rhoi darlun o'r sefyllfa bresennol ac yn cynnig procsi ar gyfer Gogledd Cymru, lle bydd mesurau a chyfresi data amgen yn darparu cymaryddion ategol. Defnyddiwyd y dull hwn wrth ddiffinio mesurau allweddol ac ategol, ac fe'u disgrifir mewn mwy o fanylder isod.

Dylai CBC Gogledd Cymru flaenoriaethu monitro a gwerthuso mesurau allweddol ac mae data monitro Trafnidiaeth Cymru ar gael fel rhan o Fframwaith Monitro WTS i ddarparu gwaelodlin ddibynadwy. Yn gyffredinol, mae hyn yn seiliedig ar gyhoeddiadau'r Adran Drafnidiaeth (er enghraifft yr Arolwg Teithio Cenedlaethol) wedi'i ategu gan gyfresi data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (megis yr Arolwg Llafurlu) a data awdurdodau lleol (er enghraifft mae'r awdurdodau lleol perthnasol yn cofnodi cerbydau tacsi a cherbydau preifat trwyddedig). Nodir hyn yn glir yn Nheclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru fel mesurau'n seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae peth data yn dod i'r fei, a bydd yn cael ei gasglu gan Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, sy'n cael ei ystyried yn yr adran isod fel rhan o gasglu data yn y dyfodol.

Mae adroddiad Technegol Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 2022[9] yn amlinellu ffynonellau data a dulliau cyfrifo ar gyfer ei fesurau, ac mae rhai o'r rhain wedi newid ers mis Awst 2023, a byddant yn cael eu hadlewyrchu mewn adroddiad ar 2023. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Technegol ar gyfer 2023 i gynnwys disgrifiad llawn o'r dull cyfrifo a ddefnyddiwyd ar gyfer pob mesur yn cynnwys y diffiniad technegol a gwybodaeth am eu ffynonellau data a'r amlder. Yn sgil newidiadau parhaus a gwirio data a dulliau technegol yn y Fframwaith Monitro, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad technegol wedi'i ddiweddaru yn ystod y gwanwyn, 2025. Byddant yn diweddaru eu gwefan i ddatgan hyn. Gellir anfon unrhyw ymholiadau am ffynonellau data neu fethodolegau cyfrifo at WTSMonitoring@tfw.wales.

Bydd monitro a gwerthuso'r mesurau ***ategol*** yn helpu i adeiladu darlun cynhwysfawr o'r system drafnidiaeth a'i pherfformiad yng Ngogledd Cymru. Mae rhai o'r mesurau'n deillio'n uniongyrchol o Fframwaith Monitro WTS, neu'n cynnwys mesurau penodol sy'n deillio o Fframwaith IWBA.

Mae Teclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru yn darparu argymhellion ar gyfer casglu data yn cynnwys enw'r gyfres ddata, dolen i'r gyfres ddata, perchennog y data a ffynhonnell y data.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i gysylltu'r mesurau ***allweddol*** i ddangosyddion sy'n cynnwys data sydd ar gael yn gyhoeddus, gan helpu awdurdodau lleol a CBC y Gogledd i gasglu data a chwblhau'r ymarfer monitro a gwerthuso. Gall y gwaith casglu data sydd ei angen i gefnogi mesurau ***ategol*** gynnwys dadansoddiad mwy cymhleth, ac i fod o gymorth, mae Teclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru yn darparu dulliau cyfrifo a fformiwla. Os nad yw rhai o'r cyfresi data a argymhellir ar gael yn y dyfodol, awgrymir y dylai CBC y Gogledd ar y cyd â'i awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru gytuno ar gyfresi data eraill. Bydd hyn yn angenrheidiol yn benodol pan ddaw cyfresi data newydd ar gael, yn cynnwys Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

### 3.4.2 Casglu data yn y dyfodol ac Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru[10]

Arolwg Teithio Cenedlaethol 2012 oedd yr un olaf i gynnwys Cymru, gyda fersiynau diweddarach yn cynnwys Lloegr yn unig. Disgwylir i Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (W-NTS) gael ei lansio yn gynnar yn 2025 gyda'r data cychwynnol ar lefel genedlaethol yn cael ei gyhoeddi o thua diwedd 2025 a'r data ar gyfer y flwyddyn gyfan gyntaf yn cael ei gyhoeddi o ganol 2026.

---

[9] Adroddiad Technegol Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 2022. Ar gael ar-lein yn: https://tfw.wales/sites/default/files/2022-06/Wales%20Transport%20Strategy%20Monitoring%20Framework%20Technical%20Report%202022.pdf

[10] Trafnidiaeth Cymru: Arolwg Teithio Cymru, 2012. Ar gael ar-lein yn: https://tfw.wales/projects/wales-national-travel-survey

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi penodi The National Centre for Social Research i gynghori a llunio adroddiadau fel rhan o gam dylunio datblygiad W-NTS, yn cynnwys dyluniad a methodoleg yr arolwg ar gyfer holiadur a dyddiadur teithio[11].

Bydd cyhoeddi'r Arolwg gan Drafnidiaeth Cymru yn gymorth pellach i CBC y Gogledd a'i awdurdodau lleol allu monitro'r cynnydd i gyrraedd targedau rhanbarthol a chenedlaethol mewn modd dibynadwy. Dylai CBC Gogledd Cymru ddiweddaru ei gyfresi data o ddyddiad cyhoeddi'r Arolwg.

### 3.4.3 Gosod gwaelodlin a thargedau cynnydd

Dylid cyfrifo gwerthoedd gwaelodlin i ddangos man cychwyn y gellir mesur unrhyw gynnydd yn y dyfodol yn ei herbyn. O fewn Teclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru, mae gwerthoedd gwaelodlin wedi'u darparu ar gyfer pob un o'r mesurau allweddol yn erbyn y blynyddoedd sylfaen er mwyn eu cymharu'n y dyfodol.

Fel y disgrifir uchod, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi data gwaelodlin ar gyfer Fframwaith Fonitro WTS. Felly, darperir gwerthoedd gwaelodlin gyda blynyddoedd sylfaen cyfatebol ar gyfer pob un o'r mesurau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â Fframwaith Monitro WTS.

Ar gyfer gwerthoedd gwaelodlin ar gyfer y mesurau sy'n seiliedig ar IWBA a rhai mesurau ***ategol***, dylid casglu data gwaelodlin ar gyfer y flwyddyn fwyaf diweddar sydd ar gael, gyda chasglu data i ddechrau pan gaiff y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ei fabwysiadu. Cyn gynted ag y bydd y gwerthoedd yn cael eu cyfrifo a'r flwyddyn sylfaen yn cael ei phennu, dylid cofnodi hyn yn glir yn Nheclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru a'u defnyddio fel gwaelodlin ar gyfer pob blwyddyn fonitro wedi hynny.

Bydd y targedau yn helpu i fonitro a gwerthuso perfformiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn erbyn y mesurau a'r dangosyddion. Pan fo hynny'n briodol, mae targedau wedi'u gosod yn Nheclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru ar gyfer y mesurau ***allweddol*** yn seiliedig ar amcanion SMART, sy'n cynnig dyheadau meintiol ar gyfer newid i gyd-fynd â thargedau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Ar gyfer y mesurau ***ategol***, argymhellir y gallai CBC y Gogledd ystyried gosod targedau ar gyfer mesurau ar lefel awdurdod lleol, neu i gyd-fynd â thargedau cenedlaethol ehangach megis y rhai hynny sydd eisoes wedi'u gosod fel rhan o fesurau Fframwaith Monitro WTS. Bydd gosod targedau gan awdurdodau lleol yn helpu i integreiddio'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gyda chynllunio corfforaethol lleol a thargedau cysylltiedig, er enghraifft yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, neu mewn perthynas â'r camau gweithredu newid hinsawdd yn cynnwys cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan.

Gall nodi meysydd penodol sydd heb eu cyflawni fod yn arwydd fod angen blaenoriaethu buddsoddi yn y meysydd hyn. Yn yr un modd, gall tueddiadau sy'n dangos fod cynnydd yn bositif mewn ardal benodol ddarparu'r cyfle i ddysgu gwersi a'u rhannu, helpu i sefydlu diwylliant o'r arfer orau a chydweithio rhanbarthol.

### 3.4.4 Adrodd ar ddata

Mae mesurau a'u dangosyddion yn amrywio ar raddfeydd gofodol fel y disgrifir uchod, felly mae Teclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru yn dangos yn glir beth yw manylder y monitro i ystyried graddfeydd lleol a rhanbarthol y lefel o adrodd sydd ei hangen. Mae'n dangos y cyfrifoldeb monitro hefyd i fod yn glir p'un ai awdurdodau lleol neu CBC y Gogledd ddylai fod yn gyfrifol am y gwaith cyfrifo ac adrodd sydd ynghlwm â'r dangosyddion, gan ystyried graddfeydd monitro a gwerthuso geo-ofodol y gwahanol fesurau.

[11] Trafnidiaeth Cymru: Ymchwil a datblygu ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Ar gael ar-lein yn: Ymchwil a datblygu ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio casglu data ac adrodd arno yn unol â'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn yn perthyn i CBC y Gogledd.

Yn unol â Chanllawiau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, dylai CBC y Gogledd gyflwyno adroddiad perfformiad blynyddol ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adran "amlder monitro" yn Nheclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru. Dylid blaenoriaethu hyn ar gyfer y mesurau ***allweddol***, i gael darlun mwy cynhwysfawr o'r system drafnidiaeth a pherfformiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, dylid monitro'r mesurau ***ategol*** yn flynyddol hefyd pan fo hynny'n bosib ac yn ymarferol gan ystyried y galw am adnoddau awdurdodau lleol, neu o leiaf ar ôl tair blynedd i asesu p'un ai yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni ei ddeilliannau, yn darparu gwerth am arian a ph'un a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Bydd canlyniadau gwerthusiad cynhwysfawr ar ôl tair blynedd yn cael eu bwydo i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol, a'r NTDP dilynol.

Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn wedi'i sefydlu yn gynnar iawn yn oes y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ond caiff ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn rhoi cyfrif am unrhyw newidiadau.

## 3.5 Cyflawni'r Cynllun

Er bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlinellu polisïau trafnidiaeth rhanbarth Gogledd Cymru, bydd gwybodaeth fanylach am sut y bydd y polisïau hyn yn cael eu cyflawni gan awdurdodau lleol i'w chael yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae hyn ar ffurf rhestr o gynlluniau sydd wedi cael eu gwerthuso a'u blaenoriaethu o ran yr effaith ar gyflawni yn erbyn yr amcanion rhanbarthol a chenedlaethol, ar y cyd â meini prawf cyflawni ehangach. Mae'r rhain yn cynrychioli'r cynlluniau y mae awdurdodau trafnidiaeth lleol yng Ngogledd Cymru, a Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyllido eraill pan fo hynny'n berthnasol, yn bwriadu buddsoddi ynddynt i gyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Bydd cyfarfodydd CBC y Gogledd yn cael eu cynnal yn chwarterol i swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol ddarparu diweddariadau ar gynnydd y gwaith o weithredu'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (ar ôl ei fabwysiadu), ynghlwm â pherfformiad cyffredinol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i gyfrannu at y mesurau a nodir yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso hwn.

# ATODIADAU

## A.1 Teclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru

<Excel File>

## A.2 Rhestr hir polisïau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

| Thema Polisi | Cyf. | Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|
| Cynllunio Defnydd Tir | LU1 | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi'r egwyddor o Ddatblygu sy'n Seiliedig ar Dramwy ar gyfer datblygiadau newydd yng Ngogledd Cymru. |
| | LU2 | Bydd yr Hierarchaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy yn cael ei defnyddio i helpu sicrhau bod datblygiadau yn cefnogi cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau gydag allyriadau isel iawn dros gerbydau modur preifat eraill. |
| | LU3 | Bydd cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy yn cael eu cyflwyno i ardaloedd allweddol ar gyfer twf yn y dyfodol a gweithgaredd economaidd. |
| | LU4 | Ni ddylai datblygiadau gael eu cefnogi ond pan fyddant yn hyrwyddo cysylltedd teithio llesol drwy ddiogelu, gwella ac ehangu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. |
| | LU5 | Dylid annog datblygiadau sy'n agos at gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus, a dylai datblygiadau gael eu dylunio i helpu hwyluso a gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd trefol a gwledig. |
| | LU6 | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi lleihau'r safonau parcio ar gyfer datblygiadau newydd (fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru), yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle byddwn yn weithredol yn gwella dewisiadau amgen o drafnidiaeth gynaliadwy. |
| Cysylltedd Digidol | DC1 | Dylid chwilio am gyfleoedd i weithio gyda chymunedau a busnesau i hyrwyddo a hwyluso canolfannau gweithio anghysbell. |
| | DC2 | Dylai addysg a hyfforddiant llythrennedd fod ar gael yn helaeth i helpu trigolion Gogledd Cymru i fynd ar-lein a dod o hyd i'r wybodaeth maent ei hangen i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy. |
| | DC3 | Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf a digidol am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, gan flaenoriaethu arddangosfeydd digidol mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol, a gweithio tuag at y wybodaeth ddiweddaraf mewn safleoedd bysiau ar draws Gogledd Cymru. |
| Cerdded, olwyn a beicio | AT1 | Bydd ansawdd a graddfa'r isadeiledd a ddarparwyd ar gyfer cerdded, beicio ac olwyno yng Ngogledd Cymru yn parhau i gael ei wella yn unol â Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. Gall y rhain fod yn gyfleusterau newydd neu gyfleusterau presennol wedi'u huwchraddio a gallant gynnwys ail-ddyrannu lle ar y ffordd i flaenoriaethu dulliau cynaliadwy. |
| | AT2 | Mewn ardaloedd nad ydynt yn wledig, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i uwchraddio isadeiledd teithio llesol lle mae mwy o botensial i gynyddu defnydd y rhwydwaith. |
| | AT3 | Pan fo'n bosib, dylai isadeiledd cerdded a beicio fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sydd ag amhariadau symudedd, pobl mewn cadeiriau olwyn a phobl sy'n gwthio pramiau. |

| Thema Polisi | Cyf. | Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|
| | AT4 | Mewn ardaloedd gwledig, bydd gwelliannau isadeiledd teithio llesol yn canolbwyntio ar fudd cynlluniau i'r gymuned; gwella diogelwch a llwybrau sy'n cysylltu cymunedau llai gydag aneddleoedd mwy a gwasanaethau. |
| | AT5 | Lle mae budd teithio llesol, bydd llwybrau sy'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu gwella i safon sy'n addas ar gyfer teithiau teithio llesol bob dydd. |
| | AT6 | Byddwn yn archwilio i gyflwyno Lonydd Tawel yng Ngogledd Cymru yn unol â chanllawiau cenedlaethol. |
| | AT7 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i archwilio sefydlu Uned Teithio Llesol Gogledd Cymru |
| | AT8 | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi cytundebau cyllid aml-flwyddyn ar gyfer isadeiledd teithio llesol fydd yn hwyluso datblygu a chyflawni rhaglen gwelliannau aml-flwyddyn. |
| | AT9 | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi newidiadau i feini prawf cyllid teithio llesol fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar gynlluniau mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd preswyl. |
| | AT10 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn archwilio ffrydiau ariannu ychwanegol i'r Gronfa Teithio Llesol sy'n cefnogi cyflawni gwelliannau isadeiledd teithio llesol mewn ardaloedd gwledig. |
| | AT11 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu templedi a phecynnau cymorth i gefnogi cymunedau lleol i ddatblygu a gweithredu eu prosiectau eu hunain lle mae'r llywodraeth yn chwarae rôl hwyluso a chefnogi, yn hytrach na rôl o wneud a chyflawni. |
| | AT12 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y gymuned a sectorau gwirfoddol, i gefnogi cynlluniau llogi e-feicio a beicio cymunedol sy'n cefnogi mynediad at gyflogaeth neu addysg. |
| | AT13 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y sector masnachol, i gyflwyno cynllun llogi e-feicio a beicio cyhoeddus mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth mawr neu leoliadau addas eraill, ac mewn lleoliadau lle mae cynllun o'r fath yn cefnogi'r economi ymweld. |
| | AT14 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dulliau i gynyddu perchnogaeth o e-feiciau, gan gynnwys cynlluniau benthyca a grantiau. |
| Mynediad ar y Ddaear i Awyrennau | AV1 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi'r gwelliannau i fynediad ar y ddaear i faes awyrennau rhyngwladol a domestig, gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus |
| Bysiau, coetsis a | PT1 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a phartneriaid yn gweithio gyda TC a Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyno masnachfreinio bws yng Ngogledd Cymru, a ddylai gynnwys cyllid aml-flwyddyn fydd yn darparu sicrwydd ar gyfer y cyhoedd sy'n teithio, awdurdodau a gweithredwyr. |

| Thema Polisi | Cyf. | Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|
| Chludiant Cymunedol | PT2 | Dylai pob bws newydd sy'n cael ei gyflwyno yng Ngogledd Cymru fod yn ddi-allyriadau. Lle mae bysiau newydd yn welliant hirdymor, dylid chwilio am gyfle i ail-bweru'r fflyd gyfredol. |
| | PT3 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu'r datblygiad o ganolfannau hydrogen yng Ngogledd Cymru drwy ymchwilio i gyflwyno fflyd bws hydrogen. |
| | PT4 | Bydd y Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaeth Bws yn cael ei gyflwyno yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaeth rhwng ac o fewn aneddleoedd mawr a safleoedd cyflogaeth gydag amlder o ddau i bedwar bws yr awr, yn ymestyn i gyda'r nos. |
| | PT5 | Bydd gwasanaethau bws y dyfodol yng Ngogledd Cymru yn cynnwys y canlynol:<br>• Amlder uchel ac oriau gweithredu hir<br>• Amseroedd ymadael rheolaidd/cyson<br>• Amserlenni ar ddydd Sul mor agos at amlder dyddiau'r wythnos â phosib i gefnogi cymudo, hamdden a galw'r economi ymweld<br>• Cael eu cydlynu i ddarparu amserlen wedi'i rhannu'n dda<br>• Lleihau amseroedd teithio rhwng y tarddiad a'r cyrchfannau gyda'r fwyaf o alw<br>• Defnyddio llwybrau uniongyrchol sy'n aros yr un fath drwy'r dydd<br>• Cael eu llwybro drwy gyfnewidfeydd trafnidiaeth a gorsafoedd rheilffordd<br>• Cael eu hintegreiddio gyda gwasanaethau bws lleol a thrafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw deinamig<br>• Cyfforddus ar gyfer teithiau hir |
| | PT6 | Bydd dull partneriaeth yn cynnwys awdurdodau priffyrdd lleol, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn cael ei roi ar waith i adnabod a gweithredu mesurau blaenoriaeth bws sy'n cefnogi cyflwyno'r rhwydwaith trawsnewid bysiau yng Ngogledd Cymru. Gall hyn gynnwys ail-ddyrannu lle ar y ffordd. |
| | PT7 | Bydd yr holl gyfleusterau aros mewn safle bws yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda cyn belled â bod modd cyflawni hyn drwy gyllidebau refeniw awdurdodau lleol. |
| | PT8 | Bydd safleoedd bysiau allweddol, megis y rhai yng nghanol pentrefi, rhai sy'n cael eu defnyddio llawer, a rhai lle mae cyfnewidfa rhwng dulliau neu wasanaethau yn gyffredin, yn cael eu blaenoriaethu i'w gwella ac yn cynnwys:<br>Cyrbiau wedi'u gostwng i gael mynediad at y safle • Cyrbiau wedi'u codi i helpu i fynd ar y bws • Golau, neu oleuadau stryd gerllaw • Llochesi • Seddi • Y wybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth am siwrne gyswllt • Storio beiciau |

| Thema Polisi | Cyf. | Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|
| | PT9 | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi Gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' ar gyfer system fysiau sy'n cael ei llywodraethu a'i chynllunio i wasanaethu er budd y cyhoedd, gyda'r cwmpas daearyddol ehangaf posibl, cysylltiadau cwbl integredig rhwng gwahanol wasanaethau, yr amleddau gwasanaeth uchaf posibl, a thocynnau a gwybodaeth hawdd eu defnyddio, unedig, syml. |
| | PT10 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys gweithredwyr ac awdurdodau lleol, i wneud teithio ar fws yn fwy hygyrch i bobl gydag anableddau neu symudedd cyfyngedig. Dylai gwelliannau dynnu oddi ar arferion da ar draws y byd, ond dylai'r gwelliannau gynnwys:<br>• Cyrbiau wedi'u gostwng i gael mynediad at y safle<br>• Cyrbiau wedi'u codi i helpu i fynd ar y bws<br>• Llochesi a Seddi mewn safleoedd<br>• Cyhoeddiadau gwybodaeth Clyweledol ar y bws mewn ffurfiau hygyrch |
| | PT11 | Dylai gwasanaethau peilot Fflecsi llwyddiannus fod yn barhaol, a dylai gwasanaethau Fflecsi ychwanegol gael eu dylunio gyda'r gymuned leol a'u cyflwyno mewn ardaloedd eraill, yn unol â chynlluniau rhwydwaith trawsnewid bysiau. |
| | PT12 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig, awdurdodau lleol a TC yn cyd-weithio gyda chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i helpu ariannu a chyflawni gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol sy'n cwrdd ag anghenion sydd heb eu bodloni fel arall. |
| | PT13 | Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cerbyd hurio preifat a thacsi i hyrwyddo diogelwch ar gyfer teithwyr a gyrwyr a helpu i gynnwys argaeledd cerbydau gydag allyriadau isel neu gerbydau heb foduron. |
| | PT14 | Lle mae arian ar gael, bydd cyfleoedd yn cael eu cymryd i symud ymlaen gyda mynd â theithiau bws i bellteroedd hirach, er mwyn cysylltu Gogledd Cymru a De Cymru, a hefyd o'r dwyrain i'r gorllewin i gysylltu â chanolfannau economaidd yn Lloegr. |
| | PT15 | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi grwpiau cymunedol sy'n anelu i wella profiad teithio ar reilffordd ar gyfer teithwyr newydd a phresennol. |
| Integreiddio rhwng dulliau | IN1 | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi datblygiad a chyflwyniad Canolfannau Symudedd a Gorsafoedd Porth i'w gwneud hi'n haws newid rhwng dulliau trafnidiaeth gynaliadwy ar daith. |
| | IN2 | Bydd creu lleoedd a chyfeirio pobl mewn gorsafoedd ac arosfannau bysiau allweddol yn cael ei wella. Dylai hyn ystyried cysylltiadau ymlaen i atyniadau allweddol a chael ei gynnal mewn ymgynghoriad â sefydliadau lleol a chymunedol, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau â nodweddion gwarchodedig. |

| Thema Polisi | Cyf. | Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|
| | IN3 | Bydd gwelliannau Isadeiledd Teithio Llesol a nodwyd ar Gynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu cyflawni, a bydd Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu datblygu ar gyfer y gorsafoedd hynny nad oes ganddynt un ar hyn o bryd. |
| | IN4 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi'r broses o gyflwyno tocynnau integredig ar draws dulliau trafnidiaeth sy'n darparu'r gwerth gorau i deithwyr. |
| | IN5 | Dylai unrhyw gynlluniau teithio a pharcio newydd geisio annog cyflawni'r daith gyfan drwy fodd cynaliadwy, gael eu lleoli i leihau milltiroedd cerbydau preifat, a chael eu lleoli mewn man sy'n medru derbyn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gydag effaith fechan. |
| | IN6 | Dylid ystyried safleoedd parcio a rhannu strategol yn y Cynllun Datblygu Strategol. |
| Galluogi Newid i Ymddygiad Teithio | CB1 | Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i safleoedd cyflogaeth mawr yn cael eu hadnabod a'u datblygu lle mae cyllid ar gael. Dylai gwelliannau ystyried patrymau gwaith shifft, patrymau gwaith tymhorol a lle gellir cyflawni'r fwyaf o effaith. |
| | CB2 | Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau sy'n annog teithio cynaliadwy i'r gwaith mewn safleoedd cyflogaeth sy'n agos at y ffin, megis Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Parc Diwydiannol Wrecsam, Airbus Brychdyn, Parc Busnes Caer, a chanol dinas Wrecsam a Chaer. |
| | CB3 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Chyfunol cyfagos, gan gynnwys Gorllewin Swydd Caer a Chaer, a Rhanbarth Dinas Lerpwl i sicrhau dull ategol i Gynllunio Trafnidiaeth, yn enwedig yn Is-ranbarth Merswy Dyfrdwy. Dylai hyn ystyried teithiau cymudo a symudiadau cludo llwythi. |
| | CB4 | Dylai cymudwyr i Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam fedru cael mynediad at swyddi gan ddefnyddio isadeiledd seiclo a cherdded ansawdd uchel, gwell gorsafoedd rheilffordd cyfagos, neu wasanaethau bws sy'n ddeniadol ac yn adlewyrchu patrymau gwaith y cyflogwyr yn y Parth Buddsoddi. |
| | CB5 | Pan fo'n bosibl, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio cyllid y Parth Buddsoddi ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy sy'n gwella mynediad at gyflogaeth a chefnogi'r gwaith darparu a llwyddiant y Parth Buddsoddi. |
| | CB6 | Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i adnabod a datblygu cynlluniau a mentrau dewisiadau doethach sy'n hwyluso cymudo mwy cynaliadwy i safleoedd cyflogaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn. |
| | CB7 | Bydd creu Partneriaethau Trafnidiaeth Strategol yn cael eu hymchwilio mewn lleoliadau cyflogaeth mawr. |

| Thema Polisi | Cyf. | Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|
| | CB8 | Rhoddir blaenoriaeth i ariannu cynlluniau a gwasanaethau sy'n gwella mynediad cynaliadwy at wasanaethau hanfodol sy'n cyfoethogi bywyd, megis addysg, gofal iechyd, canol trefi a chyfleusterau cymunedol. Unwaith y bydd yn ei le, dylid blaenoriaethu unrhyw isadeiledd sy'n cefnogi mynediad at y gwasanaethau hyn ar gyfer cynnal a chadw pan fo'n briodol. |
| | CB9 | Bydd cyflwyno Contract Gwasanaethau Cyffredinol yn un o'r ardaloedd awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn cael ei ymchwilio, gyda golwg ar gyflwyno'n ehangach ar draws y rhanbarth pe byddai'n llwyddiannus. |
| | CB10 | Bydd gwelliannau pellach i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol sy'n rhoi mynediad i sefydliadau addysg yn cael eu hadnabod a'u datblygu lle mae cyllid ar gael. Mae hyn yn cynnwys: Safleoedd Addysg Uwch (prifysgolion ym Mangor a Wrecsam, ond hefyd y rhai yng ngogledd orllewin Lloegr); Safleoedd Addysg Bellach (yn cynnwys Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria); Ysgolion Uwchradd; ac Ysgolion Cynradd. |
| | CB11 | Dylai awdurdodau lleol ymestyn eu gwaith gydag ysgolion a rhieni i annog a chefnogi teithio cynaliadwy ar gyfer plant, rhieni a staff. |
| | CB12 | Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio setiau data lleol a pholisïau megis Mesur Teithio gan Ddysgwyr i flaenoriaethu llwybrau i'r ysgol ar gyfer gwelliannau diogelwch. |
| | CB13 | Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth angenrheidiol cymdeithasol sy'n atal ynysu gwledig. Dylai hyn flaenoriaethu gwell cysylltiad cymunedau gwledig i:<br>• Cymunedau cyfagos<br>• Trefi gerllaw<br>• Cyfleusterau cymunedol cyfagos a gwasanaethau allweddol, megis iechyd, siopau ac addysg<br>• Cyfnewidfeydd trafnidiaeth ar gyfer teithio pellach |
| | CB14 | Bydd ymgyrchoedd Marchnata a Chyfathrebu yn cael eu datblygu sy'n ystyrlon ac yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fanteision teithio cynaliadwy. Bydd ymgyrchoedd yn defnyddio technegau arloesol i dargedu'r gynulleidfa gywir, yn enwedig y grwpiau hynny sy'n anoddach i'w cyrraedd. Dylid cymryd dull rhanbarthol i hyn pan fo'n briodol. |
| | CB15 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector twristiaeth i ymchwilio i ddulliau ar gyfer annog ymwelwyr Gogledd Cymru i deithio yn gynaliadwy wrth hefyd ehangu ar brofiad yr ymwelydd a gwella'r economi ymweld. |
| | CB16 | Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi'r economi ymweld drwy reoli parcio i fysiau a chartrefi modur yn agos at atyniadau yng Ngogledd Cymru. Dylai hyn ystyried cyfleoedd gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau sero. |
| | CB17 | Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wneud gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa yn barhaol, gyda chyllid hirdymor; ac ymchwilio i sut y gellir integreiddio gwasanaethau ymhellach gyda'r rhwydweithiau bws a rheilffordd ehangach. |

| Thema Polisi | Cyf. | Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|
| | CB18 | Drwy weithio â phartneriaeth, bydd gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno i annog ymwelwyr Eryri i deithio drwy ddull ar wahân i gar. Bydd y rhain yn cynnwys gwella'r dewisiadau amgen, rheolaeth o gyfleusterau a gwell gwybodaeth ac addysg. Gellir ariannu'r rhain drwy ffynonellau arloesol o ariannu. |
| | CB19 | Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ystyried gofynion tir ar gyfer cyfleusterau cyfnewidfa mewn safleoedd porth i Barc Cenedlaethol Eryri |
| | CB20 | Bydd datrysiadau arloesol ar gyfer rhoi mynediad i atyniadau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hadnabod. Dylai hyn ystyried, heb fod yn gyfyngedig i, wasanaethau bws tymhorol, llogi micro-symudedd eraill ac e-feiciau, ynghyd ag ymgyrchoedd gwybodaeth. |
| | CB21 | Bydd ymchwiliad i fanteision gwasanaethau bws tymhorol a thwristiaid yng Ngogledd Cymru yn cael ei gynnal i gefnogi'r economi ymweld a hyrwyddo integreiddiad â rhwydweithiau rheilffordd a bws ehangach. Dylai hyn ystyried nid yn unig y daith i'r gyrchfan, ond teithio ymlaen i atyniadau. |
| | CB22 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector twristiaeth ar yr arfordir i adnabod mesurau fydd yn cefnogi newid at ddulliau cynaliadwy o gael mynediad at atyniadau poblogaidd wrth barhau i sicrhau bod Gogledd Cymru yn parhau i fod yn gyrchfan o ddewis ar gyfer gwyliau a theithiau dydd. |
| | CB23 | Bydd dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer gwelliannau pellach i wasanaethau rheilffordd yng Ngogledd Cymru sy'n cefnogi'r economi ymweld yn well. |
| Porthladdoedd a Chludo llwythi | PF1 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi twf ein porthladdoedd a safleoedd datblygu cyfagos yng Ngogledd Cymru, gan gydnabod eu rôl fel catalydd ar gyfer cydleoli gweithgynhyrchu, ynni, dosbarthu hamdden a thwristiaeth. Yn benodol, byddwn yn blaenoriaethu cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy i Borthladd Rhydd Ynys Môn a phorthladdoedd yng Nghaergybi a Mostyn ac yn cefnogi eu cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio. |
| | PF2 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i gydnabod gwelliannau mynediad cerbydau i Borthladd Caergybi. Dylai hyn wella mynediad i'r porthladd ar gyfer cerbydau, gan gynnwys cludo llwythi, ond hefyd wella mynediad cynaliadwy i'r porthladd a'r orsaf reilffordd. |
| | PF3 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i wella cyfleusterau ar gyfer gyrwyr HGV, yn enwedig wrth gyrraedd Porthladd Caergybi. |
| | PF4 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu'r datblygiad o ganolfannau hydrogen yng Ngogledd Cymru drwy gefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo llwyth yn y rhanbarth. |
| | PF5 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i gydnabod cyfleoedd i drydaneiddio cerbydau ar gyfer danfoniadau lleol. |

| Thema Polisi | Cyf. | Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|
| | PF6 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i gydnabod datrysiadau i effeithiau lleol o symudiadau HGV. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith canolfan cyfuno cludo llwythi pe byddai'n dangos y bydd un yn gwasanaethu Gogledd Cymru yn hyfyw yn economaidd. |
| | PF7 | Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried gofynion tir ar gyfer rhwydwaith o ganolfannau cyfuno cludo llwythi. |
| | PF8 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid a'r sector dosbarthu i gydnabod datrysiadau arloesol i leihau'r effaith amgylcheddol o ddanfoniadau lleol. |
| | PF9 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd i gefnogi a symud at reilffyrdd ar gyfer symudedd cludo llwythi, gan gynnwys cludo logisteg ysgafn ar y rheilffyrdd. |
| Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | RS1 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer cynnal a chadw strwythur ac arwyneb sy'n sicrhau'r gweithrediad parhaus a gwytnwch asedau priffyrdd presennol. |
| | RS2 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid i addasu'r isadeiledd ffordd gyfredol i ymdrin â newid hinsawdd yn well a gwella bioamrywiaeth. |
| | RS3 | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi dull Gweledigaeth Sero Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelwch ffyrdd a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid digonol ar gyfer mesurau diogelwch ffyrdd yng Ngogledd Cymru. |
| | RS4 | Bydd y dull o ymdrin â diogelwch ffyrdd yn cynnwys cyflwyno cynlluniau gwella priffyrdd sy'n cynyddu diogelwch neu ganfyddiadau o ddiogelwch i bob defnyddiwr ffyrdd, a rhaglenni addysg parhaus gyda'r nod o annog defnydd mwy diogel o'r rhwydweithiau priffyrdd a thrafnidiaeth. |
| | RS5 | Ystyrir codi tâl am barcio a rheolaeth parcio wrth geisio rheoli'r galw am leoedd parcio ac annog pobl i beidio â defnyddio car yn ddiangen gyda dim ond un unigolyn ynddo. |
| | RS6 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i chwilio am opsiynau ar gyfer ail-ddyrannu gofod parcio ceir a ffordd presennol yn ein trefi allweddol i wella'r amgylchedd lleol, creu mannau mwy deniadol i bobl fyw a'i gwneud hi'n haws i bobl gerdded a beicio. |
| | RS7 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cefnogi trosglwyddo i gerbydau trydan yng Ngogledd Cymru, drwy sicrhau bod isadeiledd gwefru teg ar gael mewn ardaloedd trefol a helpu i hwyluso gosod isadeiledd yn breifat neu gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig. |
| | RS8 | Pan fo'n bosib, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i uno darparwyr gwefru cerbydau trydan - neu'r apiau ac aelodaeth angenrheidiol - ar draws gogledd Cymru er mwyn gwneud gwefru cerbydau trydan yn fwy cyfleus. |
| | RS9 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr i annog pobl i ddefnyddio EV, gan ddysgu o'r arfer orau. |

| Thema Polisi | Cyf. | Polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|
| | RS10 | Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig a phartneriaid yn gweithio gyda'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu i chwilio am gyfleoedd i wella capasiti grid mewn lleoliadau lle mae rhwystr i gyflwyno gwefru EV. Dylai hyn hefyd fod yn ystyriaeth allweddol i'r Cynllun Datblygu Strategol wrth gydnabod datblygiadau newydd. |
| | RS11 | Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol fynnu bod datblygiadau preswyl a di-breswyl newydd yn darparu digon o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i gwrdd â'r galw yn y dyfodol ac ysgogi'r defnydd o gerbydau trydan. |
| | RS12 | Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu nifer y clybiau ceir yng Ngogledd Cymru drwy weithio ar y cyd â darparwyr clybiau ceir, gan gynnwys darparwyr clybiau ceir cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol; ac mewn gorsafoedd, mewn mannau gwaith a chanolfannau symudedd. |
| | RS13 | Dylid defnyddio'r broses cynllunio teithio i annog rhannu ceir ar gyfer cymudo. |